Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

# Effaith Brexit ar Bysgodfeydd yng Nghymru

Hydref 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddNHAMG**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

# Effaith Brexit ar Bysgodfeydd yng Nghymru

Hydref 2018

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Gareth Bennett AC**
UKIP Cymru
Canol De Cymru



**Jayne Bryant AC**
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd



**Andrew RT Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**John Griffiths AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o’r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Dawn Bowden AC**
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**Simon Thomas AC**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** ..... **5**

**Cyflwyniad** ..... **6**

**1. Fframweithiau rheoleiddio a pholisi ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru** ..... **7**

Rhannu dyraniad cwota'r DU ..... 9

Trefniadau polisi a rheoleiddio y dyfodol ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru ..... 10

Safbwyntiau o'n gweithdy rhanddeiliaid ..... 11

Ein barn ni ..... 12

**2. Cyfleoedd newydd i bysgodfeydd Cymru** ..... **15**

Mynediad at farchnadoedd ..... 15

Mynediad at ddyfroedd ..... 16

Dyraniad cwota ..... 17

Cyllid a chymorth ..... 18

Safbwyntiau o'n gweithdy rhanddeiliaid ..... 19

Ein barn ni ..... 20

**3. Cydbwyso'r economi a'r amgylchedd** ..... **23**

Effaith cynyddu cwota ar yr amgylchedd ..... 24

Rheoli pysgodfeydd yn seiliedig ar ecosystemau ..... 25

Safbwyntiau o'n gweithdy rhanddeiliaid ..... 25

Ein barn ni ..... 26

**Atodiad A: Gweithdy Rhanddeiliaid** ..... **27**

**Atodiad B: Tystiolaeth ysgrifenedig** ..... **28**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth uchelgeisiol gyda ffocws i dyfu pysgodfeydd Cymru. Rhaid i'r strategaeth sicrhau bod y safonau amgylcheddol uchaf yn cael eu cynnal. Tudalen 14

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y 12 wythnos nesaf ar drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Dylai gynnwys trafodaethau ynghylch y fframwaith cyffredin arfaethedig ar gyfer rheoli pysgodfeydd ac unrhyw gynigion ar gyfer mecanwaith rhynglywodraethol i hwyluso cytundeb rhwng Gweinyddiaethau'r DU ar fframweithiau cyffredin, gan gynnwys polisi pysgodfeydd. Tudalen 14

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n barhaus â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector pysgodfeydd cyfan. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 12 wythnos nesaf ar y camau y bydd yn eu cymryd i ehangu ymgysylltiad. Tudalen 14

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 12 wythnos nesaf ynghylch a yw'n credu bod ei chapasiti ar bolisi pysgodfeydd, o ran nifer y staff ac arbenigedd, yn ddigonol yn y byrdymor. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw gynlluniau sydd ganddi i gynyddu capasiti yn y meysydd hynny. Tudalen 14

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 12 wythnos ar ei chynlluniau i gynyddu'r galw domestig am bysgod a physgod cregyn Cymru. Tudalen 22

**Argymhelliad 6.** Nid yw'r dyraniad cwota i Gymru o dan Goncordat Pysgodfeydd y DU yn 2012 yn ddyraniad teg ac mae'n cyfyngu ar ddatblygiad pysgodfeydd Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ailnegodi Concordat Pysgodfeydd y DU, gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn y dyraniad cwota. Tudalen 22

**Argymhelliad 7.** Rhaid ymgorffori dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau a sicrhau y gellir ei orfodi ym mholisi pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Tudalen 26

**Argymhelliad 8.** Dylai cymorth ariannol ar gyfer pysgodfeydd adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno system o gymorth ariannol sydd, o leiaf yn rhannol, yn gwobrwyo canlyniadau cynaliadwy a darparu nwyddau cyhoeddus. Tudalen 26

# Cyflwyniad

**1.** Ar 21 Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gyflwyno Bil Pysgodfeydd i alluogi'r DU i reoli mynediad at ei dyfroedd a phennu cwotâu pysgota y DU ar ôl iddi ymadael â'r UE[1].

**2.** Disgwylir i'r Bil sefydlu system rheoli pysgodfeydd newydd ar ôl i'r DU adael Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE (CFP). Mae'r CFP yn defnyddio nifer o wahanol fesurau i reoli stociau pysgod a physgod cregyn ym Mharthau Economaidd Unigryw (EEZ) Aelod-wladwriaethau'r UE (12-200 o filltiroedd morol (nm)), gan gynnwys terfynau dal, cwotâu a mesurau technegol.

**3.** Ar hyn o bryd, caiff cwota CFP ei ddyrannu i'r DU fel Aelod-wladwriaeth yr UE. Dyrennir y cwota i'r gweinyddiaethau datganoledig yn ôl Cytundeb y Concordat rhwng gweinyddiaethau'r DU. Ar hyn o bryd, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weithredu'r CFP yn nyfroedd Cymru.

**4.** Mae'r adroddiad interim hwn yn cwmpasu gwaith cychwynnol y Pwyllgor ar ddyfodol pysgodfeydd Cymru. Diben y gwaith ymchwiliol hwn yw datblygu dealltwriaeth o'r sector a'i flaenoriaethau er mwyn llywio gwaith craffu ar bolisi a deddfwriaeth pysgodfeydd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

## Dull

**5.** Ar 4 Gorffennaf 2018, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r canlynol:

- **Griffin Carpenter**, New Economics Foundation; a'r
- **Athro Richard Barnes**, Prifysgol Hull.

**6.** Ar 12 Gorffennaf 2018, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy yn Aberdaugleddau i randdeiliaid. Mae'r mynychwyr wedi'u rhestru yn Atodiad A. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal digwyddiad tebyg yng ngogledd Cymru cyn gynted â phosibl.

Estynnodd y Pwyllgor wahoddiad i gynrychiolwyr Cymdeithas Pysgotwyr Cymru i gymryd rhan yn yr ymchwiliad hwn. Gwrthododd y Gymdeithas gymryd rhan yn y gwaith hwn. Roedd y Pwyllgor yn siomedig gyda'r ymateb hwn a bydd yn parhau i geisio ymgysylltu â'r Gymdeithas.

[1] **Papur briffio cefndir** cysylltiedig

# 1. Fframweithiau rheoleiddio a pholisi ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r trefniadau sy'n rheoli gweithrediad pysgodfeydd Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys rhwymedigaethau rhyngwladol a Pholisi Pysgodfeydd Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn ystyried pa fframweithiau fydd eu hangen ar ôl Brexit.

**7.** Mae polisi pysgodfeydd yn nyfroedd y môr Cymru (12-200nm) wedi bod, ac yn parhau i fod, yn cael ei fframio a'i lywio gan gytundebau rhyngwladol a chytundebau'r DU. Am dros 40 mlynedd, mae polisi pysgodfeydd wedi gweithredu yn unol â Pholisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE (CFP). Er bod rheoli pysgodfeydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae ei ymlediad y tu allan i 12nm wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i weinyddiaeth y cytundebau hyn.

**8.** Cyn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP), roedd mynediad at ddyfroedd y DU a dyfroedd rhai gwledydd eraill Ewrop gan fflydoedd tramor yn cael ei lywodraethu gan Gonfensiwn Pysgodfeydd Llundain 1964.[2] Mae'r Confensiwn wedi parhau ar waith ochr yn ochr â'r CFP. Ar 2 Gorffennaf 2017, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, Gweinidog Defra, fwriad Llywodraeth y DU i dynnu'n ôl o'r Confensiwn fel rhan o'r broses Brexit.

**9.** Ar ôl Brexit, bydd y DU yn parhau i gael ei rhwymo gan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr** (UNCLOS), sy'n gorfodi llofnodwyr i reoli stociau pysgod mewn ffordd gynaliadwy.

## Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP)

**10.** Ym 1970, dechreuodd y trafodaethau ar ymaelodaeth y DU a gwledydd eraill â buddiannau pysgota sylweddol, mabwysiadodd chwe Aelod-wladwriaeth sylfaen y Gymuned Economaidd Ewropeaidd sawl darn o ddeddfwriaeth

[2] Mae'r Confensiwn yn creu awdurdodaeth unigryw mewn materion sy'n ymwneud â physgodfeydd ar gyfer pob gwladwriaeth arfordirol o dan y Confensiwn rhwng 0 a 6nm. Fodd bynnag, mae'n rhoi mynediad at ddyfroedd tiriogaethol rhwng 6 a 12nm i longau pysgota gwledydd Ewropeaidd sydd wedi llofnodi'r Confensiwn, ac y mae eu llongau pysgota wedi bod yn pysgota yn y rhanbarth hwnnw rhwng 1 Ionawr 1953 a 31 Rhagfyr 1962. Mae'r gwledydd hyn yn cynnwys: y DU, Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Denmarc, Sbaen, Iwerddon a Gwlad Belg. Dywedir bod gan y gwledydd hyn "Fynediad Hawliau Hanesyddol".

pysgodfeydd. Ymhlith pethau eraill, sefydlodd y rhain yr egwyddor o "fynediad cyfartal", sef bod gan bob Aelod-wladwriaeth fynediad cyfartal at ddyfroedd yr holl Aelod-wladwriaethau eraill.

**11.** Fel rhan o'i gytundeb ymaelodi, trafododd y DU a gwledydd eraill randdirymiad deng mlynedd o fynediad cyfartal o fewn y terfynau pysgota 0 i 6nm. Ym mis Tachwedd 1976, cytunwyd y dylai Aelod-wladwriaethau ymestyn eu Parth Economaidd Unigryw (EEZ) o 12 i 20nm. Byddai'r rhanddirymiad mynediad cyfartal yn cael ei ymestyn am ddeng mlynedd arall, a'i ymestyn i 12nm, ac eithrio lle'r oedd gan Aelod-wladwriaethau "fynediad hawliau hanesyddol". Mae'r rhanddirymiad hwn wedi'i adnewyddu nifer o weithiau ers hynny, yn fwyaf diweddar hyd at ddiwedd 2022 yn rhan o'r CFP diwygiedig a gytunwyd yn 2013.

**12.** Ym 1983, mabwysiadwyd y Rheoliad CFP cyntaf, gan sefydlu mesurau sy'n llywodraethu:

- Ble y gwaherddir neu y cyfyngir ar bysgota;
- Safon yr offer pysgota a ddefnyddir;
- Maint lleiaf y pysgod y gellid eu glanio; a
- Chyfyngiadau ar lefelau pysgota.

## Trefniadau Pysgodfeydd Domestig

**13.** Fel yr Aelod-wladwriaeth, mae Llywodraeth y DU yn negodi ar ran y DU ar lefel yr UE. Fodd bynnag, mae rheoli pysgodfeydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Ar hyn o bryd, mae gan weinyddiaethau pysgodfeydd y DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, rywfaint o hyblygrwydd i:

- Weithredu eu mesurau rheoli pysgodfeydd eu hunain;
- Penderfynu sut i gyflawni yn erbyn rhai o amcanion CFP; a
- Chyflwyno mesurau na ddarperir ar eu cyfer o dan y fframwaith CFP.

**14.** O dan y CFP, mae gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU yn gallu cymhwyso mesurau technegol i'w llongau eu hunain, ni waeth ble y maent yn pysgota. Er enghraifft, mae *Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010* yn gosod cyfyngiadau technegol, tymhorol a gofodol ar bysgota cregyn bylchog yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. Gellir cymhwyso mesurau o'r fath hefyd i longau Aelod-wladwriaethau sydd â mynediad hanesyddol o fewn y parth 6-12nm, ar yr amod bod y mesurau yn "anwahaniaethol".

**15.** Mae pedwar gweinyddiaeth pysgodfeydd y DU yn gyfrifol am drwyddedu llongau pysgota masnachol. Mae'r trwyddedau hyn yn llywodraethu pa ardaloedd o'r môr y gall y llongau bysgota ynddynt a pha rywogaethau o bysgod y gellir eu targedu. Drwy'r cyfundrefnau trwyddedu hyn, mae gweinyddiaethau pysgodfeydd y DU yn rheoli rhywogaethau nad ydynt yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cwota neu gyfyngiadau sy'n seiliedig ar ymdrech, gan gynnwys stociau sy'n fasnachol bwysig yn y DU, megis draenogod y môr. Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi trwyddedau.

**16.** Yn y parth 0-6nm o gwmpas arfordir Cymru, gall Llywodraeth Cymru weithredu is-ddeddfau i fynd i'r afael â materion cadwraeth lleol, gan ofyn am fwy o ddiogelwch na'r hyn a ddarperir ar lefel yr UE.

## Rhannu dyraniad cwota'r DU

**17.** Mae'r Concordat Pysgodfeydd[3], a lofnodwyd yn 2012, yn nodi sut y mae dyraniad cwota'r DU wedi'i rannu rhwng y pedair gweinyddiaeth ac yn darparu egwyddorion cyffredinol ar reoli ymdrechion a thrwyddedu. Mae'r tair elfen allweddol a gwmpesir gan y Concordat fel a ganlyn:

- Dyrannu a dosbarthu cwotâu – Caiff y cwota ei rannu ar draws y pedair gweinyddiaeth gan ddefnyddio Dyraniadau Cwotâu Sefydlog (FQA)[4]. Ar gyfer llongau o dan 10 metr, mae dyraniadau yn seiliedig ar nifer y llongau;
- Trwyddedu a chenedligrwydd llongau – Caiff cenedligrwydd llong ei bennu gan y porthladd lle y cafodd ei chofrestru; ac
- Amodau trwydded yn ymwneud â chyswllt economaidd - Anghenion arbennig cymunedau arfordirol sydd â dibyniaeth uchel ar bysgota.

**18.** Ym mis Rhagfyr 2016, lansiodd Defra ymgynghoriad ar newidiadau posibl i'r Concordat. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2017. Ni chyhoeddwyd unrhyw ganlyniad ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

[3] www.gov.uk/government/publications/concordat-on-management-arrangements-for-fishing-quotas-and-licensing-in-the-uk

[4] Dyrennir Dyraniadau Cwotâu Sefydlog yn unol â chofnodion dal hanesyddol a data glanio llongau hanesyddol y DU ar gyfer cyfnod cyfeirio 1994-1996.

## Trefniadau polisi a rheoleiddio y dyfodol ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru

**19.** Fel y disgrifir uchod, mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) ar hyn o bryd yn darparu fframwaith ar gyfer polisi pysgodfeydd, gan ganiatáu ar gyfer dull cydgysylltiedig o fewn y DU yn ogystal â'r UE.

**20.** Ar hyn o bryd, Llywodraeth y DU, yn cynrychioli'r DU fel aelod-wladwriaeth, sy'n trafod gyda'r UE ar faterion sy'n ymwneud â'r CFP. Yn yr un modd, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol, a bydd yn parhau i fod yn gyfrifol, am weithredu rhwymedigaethau dan UNCLOS. Fel y dywedodd yr Athro Richard Barnes wrth y Pwyllgor, nid yw Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol:

> "Those fall upon the UK. There is then the next step, which is how the UK facilitates or ensures responsibility within the UK for that. So, I think Wales is probably not directly concerned with what happens externally, other than the extent to which it is involved in negotiations."

**21.** Mae cytundeb cyffredinol, ar ôl Brexit, y bydd angen am fframweithiau cyffredin y DU mewn rhai meysydd sydd ar hyn o bryd wedi'u llywodraethu gan gyfraith yr UE. Un o'r rhain yw rheoli pysgodfeydd.

**22.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, galwodd ClientEarth a Chyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) am i fframweithiau'r DU gael eu cyd-gynllunio gan bob un o'r pedair gwlad. Dywedodd ClientEarth y dylai Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU:

> "establish key overarching objectives for sustainable fisheries management in UK primary law that are co-owned and co-designed by the devolved administrations."

**23.** Dywedodd ClientEarth y byddai hyn yn creu sicrwydd ac yn llywio penderfyniadau rheoli o'r diwrnod cyntaf.

**24.** Pwysleisiodd Griffin Carpenter, o'r New Economics Foundation, yr angen i sicrhau bod llais fflyd bysgota Cymru yn cael ei glywed yn y ddadl ar ddyfodol pysgodfeydd y DU. Tynnodd sylw at y ffaith bod y fflyd bysgota yng Nghymru yn unigryw yng nghyd-destun y DU ac, oherwydd ei maint bach, roedd risg y gall gael ei hanghofio yn y ddadl ar bolisi.

**25.** Dywedodd Griffin Carpenter wrth y Pwyllgor, y dylai'r prif faes ffocws ar gyfer Llywodraeth Cymru yn y byrdymor fod ar lunio strategaeth a gwaith cynllunio.

Dywedodd na fyddai'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd sy'n deillio o Brexit, o leiaf yn y byrdymor, yn uniongyrchol berthnasol i fflyd Cymru. O ganlyniad i hyn, byddai manteisio ar y cyfleoedd yn gofyn am gynllunio a buddsoddi ymlaen llaw. Soniodd yr Athro Richard Barnes hefyd am yr angen i gael syniad clir o beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer pysgota yng Nghymru.

**26.** Mynegodd ClientEarth, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) a Chymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai (MSFOMA) bryderon ynghylch capasiti Llywodraeth Cymru i gyflwyno polisi pysgodfeydd llwyddiannus a chynaliadwy ar ôl Brexit. Dywedodd WEL:

> "The delivery of fisheries and wider marine management measures have been significantly delayed in Wales, with capacity (including legal capacity) within Welsh Government a significant constraint."

## Safbwyntiau o'n gweithdy rhanddeiliaid

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid a oedd yn gweithio yn y sector pysgodfeydd o'r farn nad oedd y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin wedi bod o fudd i bysgodfeydd Cymru. Aeth rhai mor bell â'i ddisgrifio fel trychineb.

Credai llawer o'r rhanddeiliaid yn gryf fod Concordat Pysgodfeydd y DU hefyd wedi bod yn drychineb ar gyfer pysgodfeydd Cymru. Roedd y cyfran y cwota a nodir yn y concordat yn seiliedig ar ddiffyg cofnodion o ddal hanesyddol ac wedi, dros amser, arwain at Gymru yn cael fflyd fach, adfeiliedig gyda diffyg ailfuddsoddiad.

Dywedodd y rhanddeiliaid fod fflydoedd pysgota o'r DU yn amrywiol ac y dylai unrhyw bolisi pysgodfeydd yn y dyfodol roi pwyslais ar reolaeth leol. Mae angen polisi pwrpasol ar Gymru i ddiwallu ei hanghenion penodol, nid model "oddi ar y silff" sy'n bodoli eisoes.

Roedd barn gref na ddylai polisi pysgodfeydd yn y dyfodol geisio gwneud gormod, ond dylai fod â ffocws. Dylai pysgodfeydd gael eu polisi eu hunain ac ni ddylai fod yn ychwanegiad i bolisïau ehangach.

Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu ar frys gynllun ar gyfer pysgodfeydd; byddai'r eglurder cyfeiriad hwn yn cefnogi buddsoddiad ariannol mewn pysgodfeydd.

Pwysleisiodd y rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y sector yr angen am welliant brys yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid pysgodfeydd.

Roedd cwynion ynghylch amrywiaeth o faterion mewn perthynas ag ymgysylltu. Er enghraifft, nid oedd cofnodion a phapurau grŵp ymgynghorol swyddogol Llywodraeth Cymru (Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Morol Cymru) ar gael. Nid oedd yn glir pa mor aml roedd y grŵp hwn a grwpiau gorchwyl a gorffen eraill yn cwrdd, a'r hyn yr oeddent yn ei drafod.

Roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn argymell defnyddio Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau[5], y credent eu bod yn offeryn defnyddiol ar gyfer ymgysylltu ar lawr gwlad a gweithio fel rhyngwyneb â llunwyr polisi yn y llywodraeth. Awgrymodd eraill y byddai ymgysylltu â physgodfeydd yn elwa o ddull fel "Cyswllt Ffermio".

## Ein barn ni

Am ddegawdau, mae polisi pysgodfeydd yng Nghymru wedi'i lywodraethu gan gytundebau rhyngwladol, yn fwyaf nodedig, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Er bod y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin wedi arwain at fanteision sylweddol, yn enwedig ar gyfer materion amgylcheddol, mae wedi cael effaith ar weithrediad y sector pysgodfeydd yng Nghymru ac mae heb os wedi cyfyngu ar allu'r sector i ddatblygu a gwella ei ragolygon economaidd.

Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, bydd angen cytundebau a chydweithredu rhyngwladol o hyd, yn enwedig o ran diogelu'r amgylchedd a rheoli stociau pysgota yn gynaliadwy.

Er gwaethaf yr angen parhaus hwn am gydweithrediad rhwng cenhedloedd, mae Brexit yn gyfle arwyddocaol i Lywodraeth Cymru ailystyried ei pholisi pysgodfeydd, ac ystyried sut y mae am i'r sector pysgodfeydd yng Nghymru ddatblygu.

Er mwyn sicrhau bod polisïau yn y dyfodol yn gallu bodloni'r heriau sy'n deillio o Brexit, mae angen i dair elfen graidd fod ar waith.

Yn gyntaf, mae angen fframwaith rheoleiddio ar gyfer y DU, i ddisodli cytundebau cyfredol yr UE. At hynny, mae angen perthynas newydd rhwng gweinyddiaethau'r DU. Mewn adroddiadau blaenorol ("**Dyfodol Rheoli Tir yng Nghymru**", Mawrth 2017; "**Fframweithiau cyffredin ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit**", Gorffennaf 2018), mae'r Pwyllgor hwn wedi pwysleisio'r angen am berthynas newydd rhwng cenhedloedd cyfansoddol y DU ar ôl Brexit, i ystyried

[5] Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau

materion o ddiddordeb cyffredin. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer rheoli pysgodfeydd.

Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau rheolaeth fewnol deg ac effeithiol yn y DU ar faterion pysgodfeydd, megis cyfran cwota. Rhaid bod mecanwaith effeithiol i ateb cwestiynau sy'n ymwneud a chyfran cwota a, lle bo angen, datrys anghydfodau. Fel arall, mae perygl y bydd un o'r canfyddiadau negyddol mwyaf trawiadol o aelodaeth yr UE a physgodfeydd - bod rhai gwledydd yn elwa o ddyraniad cwota sydd wedi'i chwyddo'n annheg - yn cael ei drosglwyddo i'r DU.

Ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn, rydym yn mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â sut y gellid rhannu dyraniad cwota'r DU yn fwy teg.

Yn ail, mae angen i'r DU feithrin perthynas newydd gyda'r UE a gwledydd eraill. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw sector pysgodfeydd Cymru yn colli mynediad at farchnadoedd a bod ganddi fynediad priodol at ddyfroedd. Trafodir y materion hyn ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn.

Yn olaf, mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth uchelgeisiol gyda ffocws ar gyfer cyfeiriad pysgodfeydd yng Nghymru yn y dyfodol. Mae Brexit yn darparu cyfleoedd i ddyfeisio dull newydd.

Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei huchelgeisiau ar gyfer dyfodol pysgodfeydd Cymru. Mae hyn yn hanfodol er mwyn llywio trafodaethau gyda'r UE ynghylch trefniadau ar gyfer pysgodfeydd ar ôl Brexit ac, wrth iddi ddechrau trafodaethau â llywodraethau'r DU, ynghylch dyrannu'r cwota pysgota yn y dyfodol. Dylai hyn hefyd fod yn sail ar gyfer ailnegodi concordat pysgodfeydd y DU, er mwyn sicrhau bod gan Gymru gyfran deg.

Rhaid i strategaeth pysgodfeydd yn y dyfodol ddarparu polisi cyffredinol ar gyfer Cymru, ond rhaid iddi gydnabod bod rheoli pysgodfeydd yn cael ei wneud yn fwyaf effeithiol ar lefel leol.

Rhaid iddi hefyd sicrhau bod datblygu economaidd yn gytbwys â chynaliadwyedd amgylcheddol. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.

Amlygodd ein rhanddeiliaid nifer o bryderon uniongyrchol eraill, yr ydym ni o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hwy.

Yn gyntaf, mae ymgysylltu'n ystyrlon â'r sector yn hanfodol bwysig ar gyfer datblygu polisi effeithiol. Mae ein rhanddeiliaid yn pryderu bod ymgynghori a

thrafod wedi'i ganolbwyntio mewn nifer fach o grwpiau cynrychioliadol, nad ydynt yn adlewyrchu barn amrywiol y sector pysgodfeydd.

Yn ail, ceir canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid bod diffyg capasiti yn Llywodraeth Cymru, o ran nifer y staff a'u harbenigedd, i ymdrin â'r gwaith o ddatblygu a gweinyddu polisi pysgodfeydd uchelgeisiol newydd ar ôl Brexit. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau ar waith i fodloni'r heriau y bydd pysgodfeydd Cymru yn eu hwynebu.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth uchelgeisiol gyda ffocws i dyfu pysgodfeydd Cymru. Rhaid i'r strategaeth sicrhau bod y safonau amgylcheddol uchaf yn cael eu cynnal.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y 12 wythnos nesaf ar drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Dylai gynnwys trafodaethau ynghylch y fframwaith cyffredin arfaethedig ar gyfer rheoli pysgodfeydd ac unrhyw gynigion ar gyfer mecanwaith rhynglywodraethol i hwyluso cytundeb rhwng Gweinyddiaethau'r DU ar fframweithiau cyffredin, gan gynnwys polisi pysgodfeydd.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n barhaus â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector pysgodfeydd cyfan. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 12 wythnos nesaf ar y camau y bydd yn eu cymryd i ehangu ymgysylltiad.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 12 wythnos nesaf ynghylch a yw'n credu bod ei chapasiti ar bolisi pysgodfeydd, o ran nifer y staff ac arbenigedd, yn ddigonol yn y byrdymor. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw gynlluniau sydd ganddi i gynyddu capasiti yn y meysydd hynny.

# 2. Cyfleoedd newydd i bysgodfeydd Cymru

Yn y Bennod hon, rydym yn ystyried rhai o'r materion y dylai strategaeth pysgodfeydd Cymru fynd i'r afael â hwy, gan gynnwys mynediad at farchnadoedd; mynediad at ddyfroedd; a chynyddu cyfran y cwota.

## Mynediad at farchnadoedd

**27.** Yn y DU, mae'r rhan fwyaf o fwyd môr a gaiff ei ddal yn cael ei allforio, yn bennaf i wledydd yr UE neu drwy gytundebau masnach yr UE, ac mae'r rhan fwyaf o fwyd môr a gaiff ei fwyta yn cael ei fewnforio.

**28.** Mae'r rhan fwyaf o'r bwyd môr a gynhyrchir gan fflyd Cymru yn cael ei allforio i wledydd yr UE neu drwy gytundebau masnach yr UE. Gallai rhwystrau tariff neu fel arall gael effaith sylweddol ar fynediad at y farchnad a chystadleurwydd.

**29.** Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu bod sicrhau masnach heb dariffau yn bwysicach i ddiwydiant pysgodfeydd Cymru na mwy o fynediad at ddyfroedd a chwotâu. Dywedodd Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai (MSFOMA):

> "Most of the fishermen operating in Wales (ourselves included) catch non-quota species. These fishermen will not be affected by EU-UK arrangements for managing quota species such as cod, mackerel, or herring. The big issues facing most of the Welsh fishing and aquaculture sector post-Brexit will not be about access to stocks; it will be about access to markets."

**30.** Aeth ymlaen i ddweud:

> "Any post-Brexit changes to tariffs on trade with the EU and also hygiene checks of our product at Border Inspection Posts would be a major challenge. A favourable outcome to Brexit negotiations on these two issues will be vital to all Welsh fishing sectors and coastal communities."

**31.** Amlygodd ymchwilwyr o'r prosiect "Polisi pysgodfeydd y DU ar ôl Brexit: cyfleoedd a heriau aml-lefel" fod anghenion diwydiant pysgota Cymru yn wahanol i ddiwydiant yng ngweddill y DU a dywedodd y dylid adlewyrchu hyn mewn trefniadau pysgodfeydd ar ôl Brexit. Roeddent yn pwysleisio fel a ganlyn:

> "….issues around trade, export markets and tariff and non-tariff barriers are of more importance to the Welsh fishing industry than the question of improved quota allocation…"

**32.** Dywedodd yr Athro Barnes wrth y Pwyllgor y byddai cynnal mynediad at farchnadoedd yr UE ar ôl Brexit yn golygu y bydd yn rhaid i allforwyr bwyd môr yng Nghymru gydymffurfio â safonau rheoliadol sy'n berthnasol yn yr UE. Aeth ymlaen i ddweud:

> "That effectively means those will become applicable down the supply chain—so, the way in which these are caught, processed, inspected, will have to be in accordance with EU law."

## Mynediad at ddyfroedd

**33.** Mewn araith ar 2 Mawrth 2018, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r DU yn cydweithredu â'r UE i gydreoli stociau pysgodfeydd, ac roedd eisiau mynediad y naill at ddyfroedd y llall.

**34.** Mae anghenion fflyd bysgota Cymru yn wahanol i rannau eraill o'r DU. Oherwydd ei maint, nid yw fflyd bysgota Cymru fel arfer yn gallu pysgota rhywogaethau y tu allan i'w dyfroedd tiriogaethol, ac mae'n annhebygol o gael budd o fynediad unigryw i Barth Economaidd Unigryw y DU. Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) yn cyfrifo lle mae rhywogaethau cwota Cymru yn cael eu dal a'u glanio. Dangosodd fod y mwyafrif yn cael eu dal y tu allan i ddyfroedd Cymru, yn bennaf yn nyfroedd Iwerddon (70 y cant). Dim ond 10 y cant o gwota Cymru sy'n cael ei ddal yn nyfroedd Cymru ar hyn o bryd, a dim ond 27 y cant sy'n cael ei ddal yn nyfroedd y DU. Mae'r un cyfrifiadau'n dangos mai dim ond 20 y cant o rywogaethau cwota Cymru sy'n cael eu glanio ym mhorthladdoedd Cymru, a chaiff 73 y cant eu glanio ym mhorthladdoedd yr UE. Mae WCPP yn dod i'r casgliad a ganlyn:

> "Continued access for Welsh Vessels to EU waters may therefore continue to be important."

**35.** Dywedodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (MHPA) fod tua 70 y cant o'r holl bysgod sy'n cael eu glanio o ddyfroedd Prydain yn cael eu glanio gyda'r fflyd nad yw o'r DU. Awgrymodd y gallai adennill rheolaeth mynediad a rheoli adnoddau pysgota Cymru arwain at dwf fflyd bysgota Cymru o longau dros 10m a chynyddu nifer y glaniadau pysgod domestig. Gallai hyn:

> "facilitate more processing at Welsh ports to the benefit of coastal communities. This is not about supplanting foreign fleets but about

> being in control of the issue of licences and quotas to foreign and domestic vessels in a way that reinforces the economics of onshore logistics, service and processing centres."

## Dyraniad cwota

**36.** Fel y nodir ym Mhennod 1, Llywodraeth y DU, fel yr Aelod-wladwriaeth, sydd ar hyn o bryd yn trafod ac yn cytuno ar y Cyfanswm Dalfeydd a Ganiateir (TAC) ar gyfer rhywogaethau perthnasol ar gyfer pob ardal bysgota o fewn parth yr UE. Dyma gyfran y stoc y gellir ei hecsbloetio yn y flwyddyn sydd i ddod.

**37.** Caiff y Cyfansymiau eu dosbarthu i Aelod-wladwriaethau yn ôl allwedd dyrannu sy'n dyfarnu cyfran sefydlog o'r cyfle pysgota bob blwyddyn. Mae'r mecanwaith dosbarthu hwn yn seiliedig ar yr egwyddor o "sefydlogrwydd cymharol" ac mae'n rhannu Cyfansymiau yn unol â chofnodion dal hanesyddol Aelod-wladwriaethau yn ystod y cyfnod cyfeirio 1973 i 1978.

**38.** Mae Concordat Pysgodfeydd 2012 yn nodi sut y mae dyraniad cwota'r DU wedi'i rannu rhwng pedair gweinyddiaeth y DU. Awgrymodd adroddiad WCPP y gallai fod angen cydbwysedd tecach o gwota'r DU i dyfu pysgodfeydd yng Nghymru:

> "….as any increases would accrue to existing UK quota holders, the Welsh fleet requires a different arrangement of quota sharing within the UK to get its fair share."

**39.** Mae adroddiad WCPP yn nodi bod llai nag 1 y cant o gyfanswm cwota pysgota'r DU yn cael ei ddyrannu i Gymru, a dim ond tua 0.02 y cant o gwota pysgota'r UE yn ei gyfanrwydd.

**40.** Mae'r dyraniad cwota yn y DU yn seiliedig ar gofnodion dal hanesyddol. Eglurodd Griffin Carpenter i'r Pwyllgor nad oedd dyraniad cwota yn adlewyrchu cyfanswm dal Cymru, gan nad oedd yn cynnwys daliad o longau o dan 10m, sy'n cynnwys y mwyafrif o fflyd Cymru. O ganlyniad i hyn, pan ddyrannwyd cyfran cwota'r DU i wledydd cyfansoddol y DU yn seiliedig ar gofnodion dal hanesyddol, roedd Cymru dan anfantais. Aeth ymlaen i ddweud, er mai pysgod cregyn yw prif ddaliad pysgodfeydd Cymru, byddai nifer o bysgotwyr yn croesawu'r cyfle i bysgota rhywogaethau cwota.

**41.** Soniodd yr Athro Barnes am yr ailddosbarthiad posibl o lwfans cwota'r DU, a diffyg capasiti yn fflyd Cymru i gynaeafu'r fath gynnydd mewn lwfans. Cyfeiriodd at drefniadau prydlesu fel ateb, lle mae peth o'r dyraniad yn cael ei brydlesu cyn belled â bod fflyd Cymru yn gallu ei ddefnyddio.

**42.** Pwysleisiodd Griffin Carpenter y pwysigrwydd o beidio â cholli gafael ar ddyraniad cwota posibl yn y dyfodol ar sail diffyg capasiti ar hyn o bryd. Soniodd am botensial trefniadau prydlesu deng mlynedd ar gyfer dyrannu cwota, a fyddai'n ddigon hir i fusnesau gynllunio, ond byddai'n sicrhau digon o hyblygrwydd i alluogi llywodraethau i wneud penderfyniadau yn y dyfodol sy'n adlewyrchu eu blaenoriaethau.

**43.** System arall o ddyrannu'r cwota yw dyraniad sy'n "gysylltiedig â pharthau". Mae hyn yn defnyddio nifer y glanfeydd o fewn Parth Economaidd Unigryw (EEZ) gwlad i amcangyfrif y gyfran o'r stoc sydd yn nyfroedd pob gwlad, ac mae'n dyrannu cwota yn seiliedig ar yr amcangyfrif hwn. Gallai'r dull hwn arwain at ddyraniad cwota tecach o fewn y DU.

**44.** Mae adroddiad WCPP yn amcangyfrif, pe byddai dyraniad sy'n gysylltiedig â pharthau yn cael ei ddefnyddio i osod cwota'r DU, y gallai dalfa Cymru (gan dybio bod y dyraniad cwota domestig o dan Goncordat 2012 yn aros yr un fath) gynyddu 170 y cant. Gallai cynnydd pellach arwain at ymestyn y dull hwn i ddyrannu cwota domestig. Mae'r adroddiad yn egluro:

> "…using Welsh waters for the division of UK quota to the devolved administrations would increase Welsh quota by a further 257% (1,758 tonnes). These potential gains are significant, and while the percentage changes stand out as large, this is because of the relatively small size of Welsh quota landings at present."

**45.** Fodd bynnag, mae Papur Gwyn **Pysgodfeydd Cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol** Defra yn nodi nad oes bwriad i ddiwygio'r dull presennol o ddyrannu cwota.

## Cyllid a chymorth

**46.** Ar hyn o bryd, mae'r UE yn dyrannu cronfeydd strwythurol a buddsoddi drwy ei **Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop** (EMFF) i gefnogi'r diwydiant pysgota wrth iddo gymhwyso'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Ar gyfer 2014-2020, dyrannwyd €6.4 biliwn. Dyraniad y DU yw €243 miliwn, ac mae €19.7 miliwn ar gael i Gymru.

**47.** Mae Papur Gwyn mis Ionawr 2017 Llywodraeth Cymru, **Sicrhau Dyfodol Cymru**, yn nodi ei bod yn hanfodol bod adnoddau cyfatebol neu fwy i'r rhai hynny a gafwyd gan y CFP yn cael eu darparu gan y DU i Gymru i gefnogi pysgodfeydd Cymru.

**48.** Roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn galw am gymorth ariannol i bysgodfeydd barhau. Fodd bynnag, dywedodd rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y sector ei bod wedi bod yn anodd, os nad yn amhosibl, cael gafael ar gyllid o dan y systemau cyllido cyfredol. Dywedodd Griffin Carpenter wrth y Pwyllgor:

> "I think there's probably a couple of things we can improve on the EMFF. Uptake is extremely low. I think about 11 per cent of the fund is used right now and it ends in 2020, so there might be a rush of applications at the end. There are probably some being processed right now, because there's just so much paperwork. Basically, it involves fishers partnering up with some sort of friendly consultancy or something that can help to put plans together."

**49.** Dywedodd yr Athro Barnes wrth y Pwyllgor os yw Cymru am gynyddu capasiti i newid cyfeiriad, bod hynny'n aml yn gofyn am rywfaint o gefnogaeth allanol. Dywedodd y dylai unrhyw drefniant ariannu yn y dyfodol gael ei ategu gan egwyddorion clir, a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno blaenoriaethau polisi.

**50.** Roedd awgrym hefyd gan randdeiliaid y dylai'r arian ar gyfer pysgodfeydd gael ei gysylltu â darparu nwyddau cyhoeddus mewn rhyw ffordd. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 3.

## Safbwyntiau o'n gweithdy rhanddeiliaid

Roedd mynediad parhaus at farchnadoedd yr UE yn fater allweddol i'r rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y sector pysgodfeydd. Roedd y posibilrwydd o gyflwyno rhwystrau tariff a rhwystrau fel arall ar gyfer allforion cynnyrch ffres yn bryder difrifol.

Dywedodd y rhanddeiliaid mai un ffordd o liniaru rhai o'r risgiau i allforion oedd drwy ddatblygu'r farchnad ddomestig ar gyfer cynhyrchion "cartref", fel pysgod cregyn. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth y byddai newid arferion bwyta Cymru yn cymryd amser a buddsoddiad.

Roedd pryder ynghylch cynnydd posibl yn y baich gweinyddol o allforio pysgod a physgod cregyn, megis yr angen am arolygiadau milfeddygol ar gyfer pysgod cregyn byw. Roedd pryder hefyd nad oes gan y DU yr isadeiledd ar hyn o bryd i ymdrin â hyn, ac nad oedd yn debygol y byddai cwmnïau yn buddsoddi yn y seilwaith angenrheidiol heb fwy o sicrwydd ynghylch gofynion y dyfodol ar gyfer allforio.

Fel y disgrifir ym Mhennod 1, credai rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn pysgodfeydd fod Concordat Pysgodfeydd y DU wedi bod yn drychineb ar gyfer

pysgodfeydd yng Nghymru. Roedd galwadau cryf i ailystyried dyraniad y cwota, fel bod gan bysgodfeydd Cymru gyfran deg.

Ar gyfer y rhanddeiliaid, roedd dyraniad cwota a pholisi pysgodfeydd Llywodraeth Cymru yn ddiwahân. Dylai'r dyraniad cwota adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, nid statws a maint presennol fflyd bysgota Cymru. Y canlyniad gwaethaf i bysgodfeydd Cymru fyddai i'w datblygiad gael ei gyfyngu gan ddyraniad cwota annigonol.

O ran sut y dylid rhannu cwota, roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn teimlo bod angen mwy o eglurder ynglŷn â dyraniad sy'n gysylltiedig â pharthau, yn enwedig sut y byddai'n gweithio'n ymarferol dros amser, gyda rhywogaethau a stociau'n symud o ddyfroedd traddodiadol.

Roedd rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer system sy'n seiliedig ar ymdrech ar gyfer rhai rhywogaethau, yn amodol ar feini prawf clir, gan gynnwys cyfyngiadau ar offer a/neu gyfyngiadau ar ddiwrnodau ar y môr.

Roedd y rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn pysgodfeydd yn ystyried bod yr EMFF yn anhygyrch. Yn gyntaf, nid oedd pysgodfeydd Cymru yn gyffredinol yn gallu buddsoddi'r adnoddau sydd eu hangen i allu cael gafael ar arian gan yr EMFF. Yn ail, roedd y broses yn ddiangen o fiwrocrataidd. Er enghraifft, roedd ceisiadau i'r EMFF wedi symud yn gyfan gwbl i system ar-lein, gan eithrio'r rhai na allent gael mynediad at system o'r fath.

Ystyriwyd bod angen sefydlu cyllid priodol i gefnogi'r gwaith o weithredu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru, sydd ag ystyriaethau lleol hefyd. Dylai system ariannu yn y dyfodol fod yn dryloyw ac yn hygyrch.

## Ein barn ni

Fel y pwysleisiodd ein rhanddeiliaid yn gryf, mae mynediad at farchnadoedd yn hanfodol i oroesiad pysgodfeydd Cymru, o ystyried pwysigrwydd allforion, yn enwedig i wledydd yr UE. Byddai rhwystrau heb dariff yn cael effaith sylweddol; bydd hyd yn oed oedi ymylol ar gyfer allforwyr pysgod cregyn byw yn cael effaith enfawr ar hyfywedd eu busnesau.

Rydym yn rhannu pryderon ein rhanddeiliaid ar y mater hwn ac yn annog Llywodraeth y DU i wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod allforio mor ddi-dor â phosibl.

Rydym yn cytuno mai un ffordd o liniaru risgiau Brexit yw drwy gynyddu'r galw am gynnyrch yn y farchnad ddomestig. Fel ein rhanddeiliaid, rydym yn

cydnabod na all hyn ddisodli marchnad allforio yr UE yn llawn. Serch hynny, credwn y byddai'n synhwyrol i Lywodraeth Cymru archwilio'r dull hwn.

Mae mynediad at ddyfroedd hefyd yn fater allweddol i bysgodfeydd Cymru. Fel y gwelir o'r dystiolaeth a gawsom, bydd mynediad parhaus at ddyfroedd yr UE yn bwysig ar gyfer hyfywedd pysgodfeydd Cymru, o leiaf yn y tymor byr i ganolig. Fel y nodwn ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU yn sicrhau bod anghenion penodol pysgodfeydd Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau ar gytundebau ar ôl Brexit.

Dyraniad cwota yw'r ffactor a gaiff yr effaith fwyaf ar allu pysgodfeydd Cymru i ddatblygu ar ôl Brexit. Bydd cynnydd ar y lefelau cwota cyfredol o dan y CFP yn golygu cynnydd sylweddol yn y rhagolygon economaidd ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru.

Yn bwysicach, efallai, fydd ailystyried dyraniad cwota'r DU rhwng gweinyddiaethau'r DU fel y nodir o dan Goncordat Pysgodfeydd y DU. Credwn fod pysgodfeydd Cymru dan anfantais o dan y cytundeb hwn. Dylai Llywodraeth y DU ailystyried ei sefyllfa, fel y'i nodir yn ei phapur gwyn ar bysgodfeydd, na fydd yn diwygio'r dull presennol o ddyrannu cwota domestig.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddadlau am gynnydd sylweddol yn y gyfran cwota. Fel y nodwn yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei huchelgeisiau ar gyfer dyfodol pysgodfeydd Cymru. Dylai hyn fod yn sail ar gyfer ailnegodi Concordat Pysgodfeydd y DU, er mwyn sicrhau bod gan Gymru gyfran deg sy'n adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod nad oes gan y pysgodfeydd yng Nghymru y capasiti i gynaeafu cynnydd sylweddol yn y dyraniad cwota ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn bryderus y bydd datblygiad pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol yn cael ei gyfyngu gan gytundebau yn seiliedig ar lefelau dal sydd wedi dyddio. Yn y byrdymor, dylai Llywodraeth Cymru ddadlau am gynnydd yn y dyraniad cwota sy'n adlewyrchu ei huchelgais. Os oes angen, oherwydd diffyg capasiti, dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o brydlesu rhan o'i dyraniad cwota hyd nes y gall pysgodfeydd Cymru ei gynaeafu. Beth bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i ffordd o sicrhau nad yw'r anfantais bresennol i bysgodfeydd Cymru yn parhau am byth drwy gytundebau fel Concordat Pysgodfeydd y DU.

Roedd y rhanddeiliaid yn glir ei bod wedi bod yn anodd cael gafael ar gyllid yr UE i gefnogi pysgodfeydd. Credwn y dylid defnyddio ffrydiau ariannu olynol i gefnogi amcanion strategaeth gynhwysfawr pysgodfeydd yng Nghymru, ac y dylai fod yn hygyrch ac yn dryloyw.

Awgrymwyd i'r Pwyllgor y gellid cysylltu cyllid yn y dyfodol â darparu nwyddau cyhoeddus. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 3.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 12 wythnos ar ei chynlluniau i gynyddu'r galw domestig am bysgod a physgod cregyn Cymru.

**Argymhelliad 6.** Nid yw'r dyraniad cwota i Gymru o dan Goncordat Pysgodfeydd y DU yn 2012 yn ddyraniad teg ac mae'n cyfyngu ar ddatblygiad pysgodfeydd Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ailnegodi Concordat Pysgodfeydd y DU, gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn y dyraniad cwota.

# 3. Cydbwyso'r economi a'r amgylchedd

## Mae'r Bennod hon yn ystyried sut y gellir defnyddio polisi pysgodfeydd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gadw a'i wella.

**51.** Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf Llesiant) yn rhoi dyletswyddau penodol i Gymru. Mae'r Ddeddf Llesiant yn ategu egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd ar drywydd llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd yn cyflwyno'r egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

**52.** Mae cynaliadwyedd stociau pysgod, ac felly diwydiant pysgota Cymru, yn gysylltiedig â chynaliadwyedd morol ehangach. Yng Nghymru, dylid creu polisi pysgodfeydd y dyfodol yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**53.** Mae NEF, WEL a ClientEarth yn gofyn bod unrhyw ddeddfwriaeth pysgodfeydd yn y dyfodol yn cynnwys gofyniad penodol i reoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau. Roeddent yn galw am systemau dyrannu cwotâu i fod yn seiliedig ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, i ddarparu cymhellion ar gyfer gweithgareddau pysgota a fydd yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd. Disgrifiodd NEF system "cronfa cwota", a fyddai'n:

> ".....set aside a percentage of quota (especially any new quota that comes the UK's way after Brexit), and allocate it as an incentive to deliver on public goods – environmental and social goals – and helping new, low-impact fishers establish themselves in the industry."

**54.** Nod Papur Gwyn Defra ar Bysgodfeydd Cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yw hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy drwy ddilyn dull ecosystemau yn unol â chynllun yr amgylchedd 25 mlynedd Llywodraeth y DU. Dywed y bydd yn sicrhau bod cadw at arferion cynaliadwy yn rhag-amod ar gyfer unrhyw fynediad at ein dyfroedd yn y dyfodol. Mae'r Papur Gwyn yn dweud:

> "We will continue to apply the principle of Maximum Sustainable Yield (MSY) when setting or agreeing total allowable catches (TACs), and we will promote fishing within MSY ranges in line with international scientific advice on mixed fisheries."

**55.** Mae'r **Gymdeithas Cadwraeth Forol** wedi dweud bod y dull gweithredu hwn yn llawer rhy amwys, gan gyfeirio at gynaliadwyedd yn y Bil Pysgodfeydd newydd gan Lywodraeth y DU fel Bil sy'n brin o ymrwymiadau i egwyddorion ac amcanion allweddol sy'n hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd.

## Effaith cynyddu cwota ar yr amgylchedd

**56.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig yn awgrymu bod perygl y gallai newid i'r dyraniad cwota ar ôl Brexit arwain at orbysgota a darwagio stociau. Os yw'r DU yn dyrannu cwota yn seiliedig ar yr hyn y mae'n ei ystyried yn "gyfran deg" o gwota'r DU, a bod Aelod-wladwriaethau cyffiniol yr UE hefyd yn targedu stociau yn seiliedig ar system wahanol o sefydlogrwydd cymharol, gallai'r ddau barti fod yn pysgota'r un stoc. Gelwir hyn yn **drychineb y comin**. Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) yn dweud:

> "It is possible, especially as the EU seeks to maximise the quota it can allocate to its own fleet, that agreements over the division of quota will break down and result in the UK and the EU setting their own respective shares of a finite, shared resource. If these shares sum to more than 100%, and quotas is fully utilised, then systematic overfishing will take place."

**57.** Mae nifer o randdeiliaid, gan gynnwys ClientEarth a WEL, wedi tynnu sylw at y ffaith bod perthynas gydweithredol effeithiol â gwledydd cyfagos yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd stociau masnachol a sefydlogrwydd y diwydiant pysgota.

**58.** Roedd adroddiad WCPP yn galw am ymchwil pellach i gyfrannau sy'n gysylltiedig â pharthau yn nyfroedd Cymru, yn ogystal ag ymchwil i sut y gellid datblygu fflyd Cymru i ddefnyddio unrhyw gyfran fwy yn llwyddiannus, er enghraifft cefnogaeth i addasu llongau. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod angen mwy o ddealltwriaeth o effeithiau symud i fodel o ddyraniad yn gysylltiedig â pharthau o fodel o sefydlogrwydd cymharol:

> "However, for Wales there may be mixed effects from an increase in UK quota at the expense of EU vessels. If the catches from UK vessels (primarily English) are not landed in Wales (as Belgian vessels currently do), there could be a reduction in landings to Welsh ports and associated supply chains."

**59.** Roedd y rhanddeiliaid yn pwysleisio'r angen i ddeall canlyniadau newidiadau i reoli pysgodfeydd ar gyfer y diwydiannau pysgodfeydd ehangach, gan gynnwys cymunedau arfordirol. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan dîm o

ymchwilwyr sy'n gweithio ar brosiect "polisi pysgodfeydd y DU ar ôl Brexit: cyfleoedd a heriau aml-lefel" yn argymell bod unrhyw fanteision economaidd posibl i'r diwydiant pysgota a allai ddeillio o newidiadau polisi a achoswyd oherwydd Brexit yn aros o fewn cymunedau pysgota gymaint â phosibl.

## Rheoli pysgodfeydd yn seiliedig ar ecosystemau

**60.** Cyfeiriodd Griffin Carpenter at ddull sy'n seiliedig ar ecosystemau o ran rheoli pysgodfeydd, gyda ffocws mwy amlwg ar yr amgylchedd. Disgrifiodd sut y gallai hyn weithio -

> "it probably means a more varied approach to fisheries management, which is why I emphasise inshore fisheries in particular, because you need to pay attention to where there are spawning grounds and seasonal patterns in fisheries, and this needs to be really dynamic because it's not in the same spot every year."

**61.** Pwysleisiodd y byddai hyn yn gofyn am ddull dynamig o gasglu a rheoli data, a'r adnoddau a'r arbenigedd i ddehongli a gweithredu ar y data hynny.

## Safbwyntiau o'n gweithdy rhanddeiliaid

Pwysleisiodd y rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn pysgodfeydd fod dull sy'n seiliedig ar ecosystemau o ran rheoli pysgodfeydd yn hanfodol. Nid yw'n bosibl rheoli effeithiau yn annibynnol.

Ystyrir safonau amgylcheddol uchel fel rhan ganolog o reoli pysgodfeydd ar hyn o bryd. Dylid datblygu unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol gyda rhanddeiliaid a byddai'n rhaid iddo weithio ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Pwysleisiodd y rhanddeiliaid yr angen am gasglu data cadarn a'r adnoddau i'w dehongli. Tynnwyd sylw hefyd at eglurdeb o ran y cyfrifoldeb dros gasglu data, ac yn ddiweddarach y berchnogaeth o'r data hynny. Roedd canfyddiad yn y sector pysgodfeydd bod y gwaith o gasglu data a'r defnydd dilynol o ddata wedi bod yn anfoddhaol yn y gorffennol. Ar gyfer rhai pysgotwyr, roedd data o'r fath wedi arwain at gyfyngiadau ar eu gallu i wneud bywoliaeth, er enghraifft, cau tiroedd cregyn bylchog Bae Ceredigion. Cydnabuwyd y gallai darbwyllo pob pysgotwr fod manteision i dreulio amser yn casglu a chofnodi data fod yn her.

## Ein barn ni

Fel y nodwn ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn, mae cyfleoedd sylweddol yn codi o Brexit i ailystyried y ffordd rydym yn ymdrin â physgodfeydd yng Nghymru. Mae rhai o'r manteision hyn o bosibl yn economaidd. Fodd bynnag, ni ddylid manteisio ar y buddion hyn ar draul yr amgylchedd.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu polisi pysgodfeydd sy'n cydbwyso twf economaidd y sector gyda sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu. Rhaid i'r polisi gael ei ategu gan waith casglu data cadarn gyda'r adnoddau angenrheidiol ar gael i'w dehongli.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno system o gymorth ariannol i amaethyddiaeth i ddisodli taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o dalu am nwyddau cyhoeddus. Fel y nodir yn ein hadroddiad "Dyfodol Rheoli Tir yng Nghymru" (2017), rydym yn cefnogi ymagwedd o'r fath ar gyfer amaethyddiaeth. Credwn hefyd fod teilyngdod mewn ystyried dull o'r fath o ddarparu cymorth ariannol i bysgodfeydd yng Nghymru ar ôl Brexit.

Rydym hefyd yn cefnogi'r egwyddor o bysgodfeydd lleol sy'n elwa o fuddsoddiad cyhoeddus, a fydd yn ei dro yn cefnogi cymunedau arfordirol Cymru.

**Argymhelliad 7.** Rhaid ymgorffori dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau a sicrhau y gellir ei orfodi ym mholisi pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 8.** Dylai cymorth ariannol ar gyfer pysgodfeydd adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno system o gymorth ariannol sydd, o leiaf yn rhannol, yn gwobrwyo canlyniadau cynaliadwy a darparu nwyddau cyhoeddus.

# Atodiad A: Gweithdy Rhanddeiliaid

Daeth y rhanddeiliaid a ganlyn i weithdy rhanddeiliaid yn Abergwaun ar 12 Gorffennaf 2018.

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Emily Williams | Swyddog Polisi Morol – RSPB Cymru |
| Chrissy King | Swyddog Porthladd, De Cymru – Cenhadaeth y Pysgotwyr |
| Christopher Huggins | Cymrawd Ymchwil, Prifysgol Gorllewin yr Alban |
| Debbie Crockard | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol \| Grŵp piler Môr a Physgodfeydd Greener UK |
| Griffin Carpenter | Uwch-ymchwilydd – Sefydliad Economeg Newydd |
| Jeremy Percy | Cadeirydd Sefydliad Cynhyrchwyr Arfordirol \| Cyfarwyddwr Gweithredol LIFE \| Ymgynghorydd gwleidyddol i Gymdeithas Bysgotwyr Dan Ddeg Newydd |
| John O'Connor | Cadeirydd – Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru |
| Jon Parker | Cadeirydd Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Sir Benfro |
| Jonathan Monk | Rheolwr Amgylcheddol, Porthladd Aberdaugleddau |
| Lee Wonnacott | Teulu pysgota |
| Louise Wonnacott | Teulu pysgota |
| Rhys Wonnacott | Teulu pysgota |
| Mair Bell | Uwch-swyddog ymchwil, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru |
| Natalie Britton | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Glan Cei, Dociau Penfro ac Aberdaugleddau |
| Nerys Edwards | Syren Shell Fish |
| Richard Caddell | Darlithydd yn y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd |
| Stephen De-Waine | West Wales Shellfishermen's Association Ltd |

# Atodiad B: Tystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: Ymatebion i'r ymgynghoriad

| Cod | Sefydliad |
|---|---|
| FW 01 | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru |
| FW 02 | ClientEarth |
| FW 03 | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| FW 04 | Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai |
| FW 05 | Ymchwilwyr – Prifysgol Gorllewin yr Alban |
| FW 06 | Porthladd Aberdaugleddau |
| FW 07 | New Economics Foundation |
| FW 08 | Cyngor Sir Benfro |